



# Confirmation Pack

## Pecyn Cadarnhau



## CYNNWYS

	<b>Tud.</b>
Croeso	2
Gwybodaeth i Drefnwyr Cysiau	3-6
Cynllun Ystafelloedd Gwely - Tŷ'r	7
Borfa	
Cynllun Ystafelloedd Gwely - Rhosili	8
Ffurflen Cofnodi Tâl	9
Ffurflen Caniatâd Rhieni	10



## CROESO I GANOLFANNAU GWEITHGAREDDAU GŴYR

Mae'n amser i ddarganfod Penrhyn Gŵyr!

Mae ein canolfannau gweithgareddau yn Rhosili a Phorth Einon yn cynnig llety gwych i brofi'r hyn sydd gan Benrhyn Gŵyr i'w gynnig, heb sôn am olygfeydd syfrdanol y mae'n rhaid eu gweld i'w gwerthfawrogi. Am dros 30 o flynyddoedd, rydym wedi bod yn darparu gweithgareddau, digwyddiadau ac addysg ac rydym yn ymfalchïo yn y profiadau a'r atgofion rydym wedi helpu i'w creu. Boed hynny'n syrffio, yn ddringo creigiau, yn gaiacio, yn feicio mynydd neu'n ddianc am ychydig er mwyn ymlacio a mwynhau'r golygfeydd, mae gennym rywbeth at ddant pawb. Rydym yn gweithio gydag ysgolion a cholegau er mwyn darparu rhaglenni preswyl wythnos a hanner wythnos, yn ogystal â chreu gwyliau gweithgareddau wedi'u teilwra i grwpiau, teuluoedd, ac unrhyw un sydd am brofi ein Hardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu a gwerthfawrogwn eich mewnbwn ac adborth fel gwesteion y gallwn ymddiried ynoch. Er mwyn i ni barhau i ddarparu'r gwasanaeth gwych hwn â chymhorthdal i ddisgyblion ar draws Abertawe, mae angen eich cydweithrediad chi arnom. Mae'n hollbwysig eich bod yn cydymffurfio â nifer o'n hamodau a'n telerau er mwyn i ni allu derbyn eich cais i gadw lle ac, yn y pen draw, gynnal y gwasanaeth.

- **Ffurflenni caniatâd rhieni** – Rhaid cyflwyno ffurflen ganiatâd ar gyfer pob disgybl neu ni fydd modd i'r person ifanc ddod. Hon fydd y rheol a weithredir ni waeth beth fo'r amgylchiadau. Ceir y ffurflenni yn eich pecyn cadarnhau.
- **Ffurflenni cofnodi tal** – Rhaid cwblhau a dychwelyd y rhain ar ddiwedd eich ymweliad. Ceir y ffurflenni yn eich pecyn cadarnhau.
- **Blaendal** – Codir blaendal o £25 i gadw lle na ellir ei ad-dalu.
- **Anfonebu** – Mae amodau talu o fewn 30 niwrnod ar waith.

Rydym yn ymdrechu'n barhaol i wella ein cyfleusterau a'n gwasanaethau ac edrychwn ymlaen at ddangos yr holl ddatblygiadau rydym wedi'u cwblhau i chi. Mae croeso i chi gysylltu â ni ar unrhyw adeg gydag awgrymiadau neu argymhellion neu i drefnu i ymweld â'r safle. Gellir dod o hyd i'r newyddion diweddaraf drwy gylchlythyr ysgolion Abertawe.

Wela' i chi'n fuan.

Damian James  
**Rheolwr Gwasanaeth Gweithgareddau Awyr Agored**



## Dinas a Sir Abertawe Gwasanaethau Pobl Ifanc, Canolfannau Gweithgareddau Gŵyr

[www.abertawe.gov.uk/canolfannaugweithgareddaugwyr](http://www.abertawe.gov.uk/canolfannaugweithgareddaugwyr)

## CANOLFANNAU GWEITHGAREDDAU TŶ'R BORFA A RHOSILI

### Gwybodaeth i drefnwyr cyrsiau, rhieni a disgyblion

Mae **Tŷ'r Borfa** ym mhentref Porth Eynon oddeutu 18 milltir o Abertawe a 24 milltir o gyffordd 42 yr M4.

Saif y tŷ ar diroedd sy'n ymylu ar y twyni tywod a'r traeth ac mae ganddo ardd mawr gyda meinciau picnic a barbeciw. Ceir ystafell fawr amlweithgaredd, ystafell fwyta, ystafell sychu a chegin at ddefnydd preswylwyr, yn ogystal â mynediad i Wi-Fi. Mae'r tŷ'n darparu llety ar gyfer hyd at 41 o bobl.

Mae gan Dŷ'r Borfa radd 3\* gan Croeso Cymru

#### Lle cysgu:

**Staff** 1 ystafell wely ddwbl, 3 ystafell wely sengl (1 matres)  
**Disgyblion** 35 gwely (7 matres)

Mae **Canolfan Rhosili** ym mhentref Middleton, sy'n agos i Fae Rhosili ac ar lethrau deheuol Mynydd Rhosili.

Ceir dwy neuadd sy'n cynnig lle cysgu i hyd at 22, un ystafell wely ddwbl, un ystafell wely sengl a llety ychwanegol yn y lolfa i grwpiau mwy. Mae gan y ganolfan 3 ystafell gawod, un ystafell fawr ac amldefnydd, ystafell sychu, cegin at ddefnydd preswylwyr a'r defnydd o gyfarpar TG, gan gynnwys mynediad rhyngwryd band-eang.

Y tu allan ceir ardal gemau, patio gyda meinciau picnic a barbeciw.

Mae gan Ganolfan Weithgareddau Rhosili radd 2\* gan Croeso Cymru.



## Lle Cysgu:

Staff 1 ystafell wely ddwbl, 1 ystafell wely sengl  
Disgyblion 17 gwely (5 matres)

**Sylwer mai mewn car neu fws mini'n unig y gellir cyrraedd Canolfan Weithgareddau Rhosili. Os ydych chi'n cyrraedd mewn coets, bydd yn rhaid i chi gerdded 0.5km ar hyd lôn i gyrraedd y ganolfan.**

Darperir yr holl ddillad gwely. Caiff yr holl brydiau o fwyd eu coginio gan ein cogyddion ac maent yn hapus i drafod unrhyw ofynion arbennig â chi.

Gweler cynlluniau'r ystafelloedd yn yr atodiad.

## Amserau bwyta

8.15 am Brechwast  
12.15 pm Cinio ar ddydd Llun (cinio pecyn bob dydd arall)  
5.15 pm Cinio nos  
Gyda'r hwyr Swper ysgafn a diod boeth

Bydd darpariaeth ar gyfer llysfwytawyr a deietau arbennig os ydych chi'n ein hysbysu am hyn o leiaf bythefnos cyn eich ymweliad.

Mae'r holl weithgareddau wedi'u trwyddedu gan yr AALA ac fe'u harweinir gan ein hyfforddwyr cymwys a phrofiadol. Darperir yr holl gyfarpar.

## Gwnewch yn siŵr fod yr holl staff a disgyblion yn ymwybodol o'r pwyntiau dilynol.

Fel rhan o'r profiad preswyl, mae disgwyl y bydd disgyblion yn helpu gyda thasgau domestig fel clirio a gosod byrddau a chadw eu hystafelloedd yn daclus.

Rhaid goruchwylio disgyblion ar bob adeg pan fyddant ar safle'r ganolfan.

Wrth ymadael â'r ganolfan yn ystod y dydd, sicrhewch fod yr holl ddrysau a ffenestri wedi'u cau a bod gennych allwedd neu gôd y bysellbad er mwyn gallu cael mynediad pan fyddwch yn dychwelyd. Gyda'r nos, diffoddwch yr holl oleuadau a sicrhewch fod yr adeilad yn ddiogel drwy gloi'r drysau allanol.

Ni chaniateir alcohol yn y ganolfan ar unrhyw adeg ac ni chaniateir smygu. Ni ddylai myfyrwyr dod â gwm cnoi neu gyllyll poced.



Ni cheir signal ffonau symudol i ambell rwydwaith yn y ganolfan. Ceir ffôn talu ar gyfer galwadau allan yn unig.

Ceir offer **cymorth cyntaf** a ffurflenni cofnodi damweiniau mewn ystafelloedd gwely'r staff ac mewn lleoliadau penodol eraill o gwmpas y ganolfan. Mae ein holl hyfforddwy'r gweithgareddau yn gymwys i roi cymorth cyntaf cymwys ond rydym yn argymhell y dylai un o'r staff sy'n ymweld â'r ganolfan fod yn gymwys i roi cymorth cyntaf hefyd.

## Gwasanaethau meddygol

Os yw'n angenrheidiol, ac ar ddisgresiwn staff yr ysgol, gellir cael cyngor meddygol gan y feddygfa leol, sef:

Y Feddygfa  
Heol Monksland  
Scurlage  
Ffôn: 01792 390413

## Ymarfer tân

Mae'n rhaid i'r holl staff ymgyfarwyddo â gweithdrefnau ac allanfeydd tân y ganolfan, ac mae'n rhaid cynnal ymarfer tân ar ddechrau'r ymweliad.

## Ymweliadau yn ystod yr wythnos

Dechrau	Dydd Llun	9.30 am
Gorffen	Dydd Gwener	1.30 pm

Gadewch yr ystafelloedd gwely erbyn 9.30am ar y dydd Gwener. Gallwch adael eich bagiau lawr llawr nes i chi ymadael.

## Yr hyn mae ei angen arnoch

Darperir yr holl ddillad gwely a chyfarpar arbenigol i'r gweithgareddau.

Argymhellir i chi ddod â'r canlynol:

- Pethau ymolchi
- Tywel mawr x 1 a thywel bach x 1
- Dillad nos
- Sliperi
- Dillad a dillad isaf sbâr
- Tortsh â batris newydd
- Pin, pensil a llyfr nodiadau



Yn ogystal, os ydych yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, argymhellir i chi ddod â:

- Sanau, 4 pâr (trwchus)
- Hen bâr o drenyrs
- Trowsus tracwisg/legins x 3
- Crys rygbi neu grys chwys neu dop cnu x 3
- Crysau T x 5
- 2 wisg nofio
- Gwarbac
- Bagiau plastig ar gyfer offer gwlyb

Gan ddibynnu ar y tywydd, bydd angen hefyd i chi ddod â menig, sgarff a het gynnes neu eli haul a het haul.

Pan fyddwn yn cyflwyno gweithgareddau awyr agored, darperir yr holl gyfarpar, siacedi dwrglos a sachau teithio.

**Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â ni.**



## CANOLFAN WEITHGAREDDAU BRESWYL TŶ'R BORFA CYNLLUN YR YSTAFELLOEDD GWELY A NIFEROEDD

ENW'R YSTAFELL	MATH O YSTAFELL/WELYAU	YSTAFELL GAWOD	NIFER O WELYAU (AC EITHRIO GWELYAU DROS DRO)	NIFER MWYAF
<b>LLAWR CYNTAF, AR BEN Y GRISIAU</b>				
LLANILLTUD GŴYR	STAFF SENGL	ENSUITE	1	1
LUNNON	YSTAFELL GYSGU 4 GWELY + 2 FATRES	AR WAHÂN	4	6
CROFTY	YSTAFELL GYSGU 4 GWELY	AR WAHÂN	4	4
PENRHYS	YSTAFELL GYSGU 4 GWELY + 1 MATRES	AR WAHÂN	4	5
<b>LLAWR CYNTAF, I'R CHWITH AR BEN Y GRISIAU</b>				
PENMAEN 1	STAFF SENGL	WEDI'I RHANNU Â PHENMAEN 2	1	1
PENMAEN 2	STAFF, DWBL (GWELY DWBL)	WEDI'I RHANNU Â PHENMAEN 1	1	2
LLANDDEWI	YSTAFELL GYSGU 4 GWELY + 1 MATRES	AR WAHÂN	4	5
CWM IORWG	YSTAFELL GYSGU 4 GWELY + 1 GWELY DROS DRO	AR WAHÂN	4	5
<b>AIL LAWR</b>				
LLAN-Y-TAIR-MAIR (KNELSTON)	YSTAFELL GYSGU 4 GWELY + 2 FATRES	WEDI'I RHANNU Â CHERITON	4	6
CHERITON	YSTAFELL GYSGU 4 GWELY	WEDI'I RHANNU Â LLAN-Y-TAIR-MAIR (KNELSTON)	4	4
<b>LLAWR GWAELOD</b>				
BURRY GREEN	SENGL YN ADDAS I BERSON AG ANABLEDD (MATRES)	ENSUITE	1	2
<b>CYFANSWM NIFER Y GWELYAU</b>			32 28 + 4 STAFF	41 35 + 4/6 STAFF





## CANOLFAN WEITHGAREDDAU BRESWYL RHOSILI CYNLLUN YR YSTAFELLOEDD GWELY A NIFEROEDD

YSTAFELL	MATH O YSTAFELL/WELYAU	NIFER Y GWELYAU	CYFANSWM NIFER Y GWELYAU
<b>LLAWR GWAELOD</b>			
Ystafell gysgu isaf	4 gwely bync	8	8
Lolfa	5 matres (ar gael os oes angen)	5 matres	5
<b>Ystafell staff/arweinwyr</b> Sengl	1 Sengl	1	1
<b>Ystafell staff/arweinwyr</b> Ystafell ddwbl	2 Sengl	2	2
Cawod i fenywod	2 gawod a 2 doiled		
Cawod i ddynion	2 gawod a 2 doiled		
<b>Staff/arweinwyr</b> Cawod	Cawod a thoiled staff		
<b>LLAWR CYNTAF</b>			
Ystafell gysgu uwch (llawr mesanîn)	9 gwely sengl	9	9
<b>Cyfanswm nifer y gwelyau - Plant/pobl ifanc (17 gwely + 5 matres)</b>			<b>22</b>
<b>Cyfanswm nifer y gwelyau - staff/arweinwyr</b>			<b>3</b>
<b>Y TU ALLAN</b>			
Ystafell wlyb	Cawod a thoiled		





## GWASANAETHAU POBL IFANC - CANOLFANNAU GWEITHGAREDDAU AWYR AGORED GŴYR Ffurflen Caniatâd Rhieni

Ysgol: .....

Lleoliad: ..... Gweithgareddau a wneir: .....

Dyddiad: .....

Enw'r disgybl: ..... Dyddiad geni: .....

Cyfeiriad cartref: .....

Rhif ffôn cartref: ..... Rhif ffôn busnes y rhieni: .....

Cyfeiriad a rhif ffôn arall mewn argyfwng: .....

A oes angen triniaeth feddygol reolaidd ar eich mab/merch ar gyfer unrhyw salwch neu anabledd?

Atebwch OES neu NAC OES  
Os OES, rhowch fanylion: .....

A yw'ch mab/merch yn hyderus yn y dŵr (os yw'n berthnasol)

Ydy

Nac

A ydy'ch mab/merch wedi cael pigiad tetanus yn y pum mlynedd diweddar?

Ydy

Nac

A oes unrhyw ofynion deiet arbennig gyda'ch mab/merch?

Oes

Nac

Ticiwch os nad ydych am i'ch mab neu'ch merch ymddangos ar gyfryngau cymdeithasol  
Ticiwch os nad ydych am i'ch mab neu'ch march ymddangos ar ein gwefan



Enw meddyg y teulu: .....

Cyfeiriad: .....

Rhif ffôn:

Ar ôl cael gwybodaeth am y gweithgaredd/ymweliad arfaethedig, rwyf yn ystyried y disgybl uchod yn gorfforol abl i ymgymryd â'r gweithgareddau a ddisgrifir a, thrwy hyn, cytunaf iddo/iddi gymryd rhan.

Trwy hyn, rwy'n cydsynio i unrhyw driniaeth feddygol, ddeintyddol neu lawfeddygol, gan gynnwys rhoi anesthetig, a ystyrir yn angenrheidiol i'r disgybl a enwyd uchod (gweler y nodyn isod).

Llofnod: ..... (Rhiant/Gwarcheidwad)

Dyddiad: .....

**Os bydd angen triniaeth feddygol frys, gwneir pob ymdrech i gysylltu â rhiant/gwarchodwr y disgybl.**